

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O
GABINET CYNGOR GWYNEDD**

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD	02/06/25
DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD	03/06/25
DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.	10/06/25

ENW A THEITL YR AELOD CABINET

Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

PWNC - Gwaredu diddordeb y Cyngor o dir sy'n gyfagos i Fod Idris, Llwyngwrl.

PENDERFYNIAD

Gwaredu diddordeb rhydd-ddaliad y Cyngor mewn darn o dir sy'n gyfagos i Fod Idris, Llwyngwrl ar delerau ac amodau sydd i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet :	Cynghorydd Paul Rowlinson
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :	Efan Thomas MRICS Uwch Syrfewr Stadau
Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad:	2 Mehefin 2025
Llofnod yr Aelod/au Cabinet :	P. S. Rowlinson

Pwnc : Gwaredu diddordeb y Cyngor o dir sy'n gyfagos i Fod Idris, Llwyngwrl.

Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :

Gwaredu diddordeb rhydd-ddaliad y Cyngor mewn darn o dir sy'n gyfagos i Fod Idris, Llwyngwrl ar delerau ac amodau sydd i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :

Fel y gall y Cyngor waredu'r buddiant rhydd-ddaliad mewn eiddo sy'n cael ei ystyried yn rhwymedigaeth ac sy'n warged i ofynion y Cyngor.

Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :

Derbyniwyd cais gan y Cyngor i brynu parcel bach o dir sy'n ffinio â Bod Idris, Llwyngwrl. Bwriad y darpar brynwr yw ehangu eu gofod gardd i'r darn bach hwn o dir. Gan fod y darpar brynwr yn berchen ar eiddo cyfagos, ystyrir bod y safle yn fwy gwerthfawr iddyn nhw yn hytrach nag unrhyw brynwr arall. Byddai cymeradwyo'r penderfyniad sy'n ceisio gwerthu'n uniongyrchol i'r darpar brynwr yn golygu bod y Cyngor yn hepgor y costau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw'r safle yn y tymor hir.

Fel rhan o'r trosglwyddiad, bwriad yw cyfyngu'r defnydd fel gofod amwynder / tir gardd yn unig, a bwriedir hefyd bod cymal yn cael ei gynnwys i sicrhau bod y Cyngor yn adennill canran (50%) o'r cynnydd yng ngwerth y safle pe bai'r darpar brynwr yn ceisio caniatâd cynllunio i ddatblygu defnydd amgen digonol ar gyfer y dyfodol.

Byddai cymeradwyo'r argymhelliad a gwaredu'r eiddo yn uniongyrchol i'r ymgeisydd yn galluogi'r Cyngor i fwrw ymlaen yn ddi-oed i waredu'r eiddo ac osgoi costau diangen mewn perthynas â'r safle a'i gynnal a chadw.

Nid oes unrhyw fwriad i dderbyn llai na Gwerth Marchnad ar gyfer yr eiddo.

Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :

Dim.

Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :

Prif Swyddog Cyllid – Dewi Morgan – “Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.”

Swyddog Monitro – Iwan Evans – “Dim sylwadau i’w hychwanegu os safbwynt priodoldeb “

Aelod/au Lleol: Cyngorydd Louise Hughes – “Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad ac rwyf yn cefnogi’r cais i’w brynu”



1:200



reswylfa

Glasfryn
Llwynteg
Bod Idris

Car Pa

Frondeg

Ty Cerrig



8 Meters
Tyn

Plan - Land Adjoining Bod Idris